# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Virtual**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Medi 2023

Amser: 09.02 - 09.33

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth,<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn i agenda dydd Mawrth:

- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Y Diwydiant Dur (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Diweddariad ar Cenedl Noddfa (30 munud)

Nododd y Llywydd y byddai'r datganiad ar y Diwydiant Dur yn debygol o ennyn cryn ddiddordeb gan yr Aelodau ac nad oedd yr amseru dangosol yn debygol o fod yn ddigonol. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ystyried ymestyn yr amseru gyda Gweinidog yr Economi.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.15pm.

**Dydd Mercher**

Diolchodd y Trefnydd i'r Rheolwyr Busnes am gytuno i ail-drefnu dadleuon y gwrthbleidiau yr wythnos hon er mwyn hwyluso'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ymateb i ddadl y Ceidwadwyr.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

**3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Dydd Mawrth 26 Medi 2023 -**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cydnerthedd y System Iechyd a Gofal Cymdeithasol (~~30~~ 45 munud)
- Datganiad gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Cadw: ymgysylltu cymunedau â threftadaeth (30 munud)

**Dydd Mawrth 3 Hydref 2023 -**

- Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar y Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru) (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Diweddariad ar Taith – Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol Cymru (30 munud)

Gofynnodd Heledd Fychan eto am ddiweddariad llafar ar newidiadau posibl i Gyllideb 2023-24. Cadarnhaodd y Trefnydd y byddai'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn gwneud datganiad llafar yn ystod yr wythnosau nesaf.

## 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 27 Medi –**

- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog - Gwneud offerynnau statudol ar ôl gadael yr UE (5 munud)

**Dydd Mercher 11 Hydref 2023 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: John Griffiths (Dwyrain Casnewydd) (30 munud)

## 3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynigion ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynnig arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i'w amserlennu ar 27 Medi:

**Rhys ab Owen**

**NNDM8274**

Mae'r Senedd hon:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn yn ffurfiol i Lywodraeth y DU gychwyn adran 48(1) o Ddeddf Cymru 2017, a fyddai'n alinio'r ffin cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer dŵr gyda'r ffin genedlaethol.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn yn ffurfiol am y pwerau i drwyddedu cyflenwad dŵr neu drwyddedai carthffosiaeth a thrwy hynny ddatganoli dŵr yn llawn i Gymru.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ar gyfer y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

**Amserlen ar gyfer y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ysgrifennu at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i esbonio ei fod yn bwriadu cyfeirio'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) at y Pwyllgor i graffu ar egwyddorion cyffredinol, a gofyn am farn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y pwynt hwnnw ac ar yr amserlen arfaethedig. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i anfon copi o'r llythyr at y Pwyllgor Biliau Diwygio i roi cyfle iddo wneud unrhyw sylwadau y mae'n dymuno eu gwneud mewn perthynas â chyfrifoldeb dros graffu ar y Bil.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

### 5.1 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ynghylch yr amserlen ar gyfer Cyllideb 2024-25 Llywodraeth Cymru.

Trafododd y Pwyllgor Busnes gynnig gan y Trefnydd i addasu'r amserlen ar gyfer Cyllideb 2024-25 a chytunodd i ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid ar y cynigion diwygiedig a dychwelyd  at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

# 6 Y Rheolau Sefydlog

## 6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ynghylch gweithdrefnau sydd eu hangen er mwyn craffu ar Offerynnau Statudol sy'n deillio o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a bodlonrwydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad â'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog.

## 6.2 Trafod yr adroddiad drafft ar ddiwygio Rheolau Sefydlog: Gwneud offerynnau statudol ar ôl gadael yr UE

Trafododd y Pwyllgor Busnes adroddiad drafft yn cynnwys newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn ymwneud â gwneud offerynnau statudol ar ôl gadael yr UE a chytunodd arno. Cytunodd y Pwyllgor y bydd cynnig i'r Senedd gytuno ar y newidiadau arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'w drafod ddydd Mercher 27 Medi.